

Dale/Bae Castlebeach

Teithiau Byr

Hyd: 1 awr 30 munud

Pellter: 1.7 milltir (2.7 km)

Cludiant cyhoeddus: Bws gwasanaeth Dale 315/316, *Pâl Gwibio 400 (*ymhorol, galw a teithio).

Cyfeirnod map: SM815046

Does dim llawer o goed i'w gweld ym Mhenrhyn Dale, ond mae'r llwybr hwn yn mynd â ni ar hyd llethrau hir i lawr tuag at y môr, lle gwelwn nifer anarferol o goed.

Y dyddiau hyn, mae Dale yn lle poblogaidd ar gyfer hwylio a bordhwylio, ond mae gan y pentref hanes morwrol cryf. Yn y 16eg ganrif, roedd yn un o borthladdoedd pwysicaf Sir Benfro gydag enw fel lle i smyglwyr guddio. Yn yr 1850au, roedd cychod yn dal i gael eu hadeiladu yn Dale.

Mae gan Gaer Dale olygfeydd godidog ar hyd Dyfrffordd y Ddau Gleddau. Adeiladwyd y gaer Fictorianaid tu mewn i safle llawer mwy o oes yr Haearn. Mae'r adfeilion dal i'w gweld yn y cae. Roedd y gaer yn rhan allweddol o amddiffynfeydd Aberdaugleddau yn y 19eg ganrif. Bellach, mae'n Ganolfan Astudiaethau Maes i fyfyrwyr bioleg y môr.

Mae dringo i lawr i Fae Castlebeach yn bleser. Mae'r dyffryn bach coediog yn teimlo'n gudd, ac yn aml iawn, does neb ar gyfyl y traeth bach. Edrychwch am adfeilion yr olyn galch, lle llosgwyd carreg galch i greu calch i'w ddefnyddio mewn amaethyddiaeth.

Y tu hwnt i'r bae, mae'r llwybr yn dringo i fyny drwy'r coetir. Ar y ffordd i fyny, cadwch lygad am adfail hen fwthyn. Rhwng 1830-1900 roedd teulu lleol o Farloes yn byw yno ac yn

gweithio'r olyn galch. Fel atgof pellach o'r gorffennol, gellir dod o hyd i blanhigion yr ardd o amgylch adfeilion y bwthyn.

Yn ddyfnach yn y goedwig, rydych yn croesi nant dros bont garreg sydd wedi'i hadnewyddu. Pont cart pwll oedd yma'n wreiddiol ac roedd yn rhan o'r ffordd i gludo calch o'r olyn. Mewn gwirionedd, mae'r llwybr rydych yn cerdded arno yn dilyn adfeilion yr hen ffordd honno.

Y tu hwnt i'r bont, mae'r llwybr yn dringo hyd yn oed yn uwch tuag at fan uchaf y llwybr, gyda golygfeydd gwych o'r ddau gleddau ar draws Bae Watwick, Gerllaw, ceir adeilad amddiffynnol arall, sef y Blocws Gorllewinol trawiadol o oes Victoria. Bellach yn llety gwyliau, mae wedi'i guddio'n dda. Ochr yn ochr â'r Blocws, saif tri thwr morlywio – mae'r rhain a'r un unigol yn Watwick Point yn cynnig canllaw i'r tanceri wrth iddyn nhw fynd mewn i'r ddyfrffordd.

Daniel Wynn, Parcmon y De Orllewin: "Mae hwn yn ffefryn personol. Cafodd y llwybr ei adnewyddu gyda chymorth Ffrindiau Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a gwirfoddolwyr eraill. Bydd amrywiaeth y cynefinoedd ar hyd y daith o ddiddordeb mawr i'r rhai sy'n caru natur, yn enwedig yn y coetir lle gellir gweld heidiau o ditw cynffon-hir a chnocell y coed yn aml iawn. Mae'r coetir llaith a gwlyb yn lle perffaith ar gyfer ffyngau a chennau o bob math. Yn ogystal, mae'r daith hon yn dathlu hanes lleol drwy ddangos adfeilion o'r gorffennol diwydiannol."

